Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Briff i'r Cyfarfod Llawn

## Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

**Briff**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y ddadl** | **19 Rhagfyr 2012** |

**Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil yw hwn.**

Gwasanaeth Ymchwil

## Cynnwys

**1. Cronoleg o'r datblygiadau ........ 3**
1.1. Adolygiad o Wariant 2010 ........ 3
1.2. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion posibl ........ 3
1.3. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ........ 4
1.4. Rheoliadau posibl i Gymru ........ 5
1.5. Y Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr 2012 ........ 6
1.6. Ailgynnull y Cynulliad ........ 6
**2. Y trefniadau ar hyn o bryd ........ 6**
**3. Y cynigion ar gyfer Cymru ........ 7**
3.1. Y Rheoliadau i Gymru ........ 7
3.2. Yr effaith ar bobl yng Nghymru ........ 8
**4. Yr Alban ........ 9**
**5. Lloegr ........ 9**

## 1. Cronoleg o'r datblygiadau

### *1.1. Adolygiad o Wariant 2010*

Yn yr Adolygiad o Wariant a gynhaliwyd yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i gyflwyno trefniadau lleol ar gyfer rhoi cymorth at filiau'r dreth gyngor o 2013-14 ymlaen. Byddai'r gwariant ar y cymorth hwnnw hefyd yn gostwng 10 y cant.[1]

Mae hyn wedi cael ei roi ar waith gan newidiadau i'r gyfraith yn San Steffan:

- Bydd *Deddf Diwygio Lles 2012* yn cael gwared ar fudd-dal y dreth gyngor;
- Bydd *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012* yn cyflwyno trefn ar gyfer disodli budd-dal y dreth gyngor gyda chynlluniau i ostwng y dreth gyngor, a hynny trwy ddiwygio *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992*.

Yn Lloegr, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol unigol fydd datblygu eu cynlluniau eu hunain i ostwng y biliau. Yng Nghymru ac yn yr Alban, mae'r cyfrifoldeb ar y gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu cynlluniau newydd. Ceir rhagor o fanylion am y modd y mae'r gwledydd wedi bwrw ati yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Drwy gyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol[2] y caiff budd-dal y dreth gyngor ei dalu ar hyn o bryd. Caiff awdurdodau lleol eu had-dalu'n llawn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau am y symiau y byddant wedi eu gwario ar yr hawliadau am y budd-daliadau hynny.

O 2013-14 ymlaen, ni fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi cymorth at y dreth gyngor o'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Yn hytrach, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi grantiau i awdurdodau lleol yn Lloegr, ac i'r llywodraethau yn yr Alban a Chymru.[3]

### *1.2. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion posibl*

Ym mis Chwefror 2012, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar sut y byddai'n rhoi cymorth at filiau'r dreth gyngor yng Nghymru o fis Ebrill 2013 ymlaen.[4] I raddau helaeth, roedd y cynlluniau yr ymgynghorwyd arnynt wedi'u seilio ar y darpariaethau oedd yn bodoli eisoes ar gyfer rhoi budd-dal y dreth gyngor. Yr egwyddor oedd mai system genedlaethol fyddai hon, yn osgoi 'loteri cod post', er y byddai rhyw fymryn o ryddid gan awdurdodau lleol i amrywio pethau hwnt ac yma.

---

[1] Trysorlys Ei Marwhydi, ***Adolygiad o Wariant 2010***, 20 Hydref 2010, paragraff 2.42 (Saesneg yn unig) [fel ar 11 Rhagfyr 2012]

[2] Ar y cyfan mae'n fwy anodd rhagweld gwariant a reolir yn flynyddol na'r terfynau gwariant adrannol. Mae'n cynnwys gwariant wedi'i seilio ar y galw yn gyffredinol ac felly ni all y ddarpariaeth yn rhesymol fod yn destun terfynau aml-flwyddyn, (er enghraifft, rhoi benthyciadau i fyfyrwyr). Adolygir a phennir hwn ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y gellir dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddewis o safbwynt y dyrannu. Mae modd cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn ôl y gofyn, a bydd yn rhaid dychwelyd unrhyw arian o'r fath sydd heb ei wario

[3] Sefydliad Joseph Rowntree, ***Reforming council tax benefit***, 30 Mai 2012 (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Rhagfyr 2012]

[4] Llywodraeth Cymru, ***Darparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor yng Nghymru***, Chwefror 2012 [fel ar 11 Rhagfyr 2012]

## *1.3. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol*

Pan gyflwynwyd y *Bil Cyllid Llywodraeth Leol* gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2011, roedd ynddo ddarpariaethau ar gyfer disodli budd-dal y dreth gyngor, ond dim ond i Loegr oedd y darpariaethau hyn yn berthnasol. Ar y pryd, nid oedd unrhyw bwerau deddfu'n bodoli a fyddai wedi galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno eu system eu hunain. Ar gais Llywodraeth Cymru, diwygiwyd y *Bil Cyllid Llywodraeth Leol* ym mis Mai 2012. Byddai hynny'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn cyflwyno cynlluniau i ostwng y dreth gyngor yng Nghymru.

Yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 22 Mai 2012, gwnaeth y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad yn egluro pam fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y pwerau hyn:

> Mae Llywodraeth Cymru yn hynod bryderus ynghylch cynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddileu budd-dal y dreth gyngor ar 31 Mawrth 2013 ac i leoleiddio cefnogaeth ar gyfer y dreth gyngor fel rhan o'i chynlluniau ehangach i ddiwygio'r system fudd-daliadau. Mae hon yn her enfawr, sy'n gofyn i ni ddatblygu a gweithredu cynllun newydd sy'n darparu cymorth hanfodol ar gyfer rhai o'r aelodau sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno hyn yn creu heriau sylweddol i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid mewn llywodraeth leol […]
>
> Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol wedi cael rhwydd hynt i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, sy'n golygu y gallai fod cannoedd o ddulliau gwahanol. Gallai hyn olygu bod hawlwyr yn Lloegr sydd ag amgylchiadau tebyg yn cael lefelau gwahanol iawn o gymorth y dreth gyngor yn dibynnu ar ble y maent yn byw. Rwyf wedi bod yn glir na fydd hyn yn digwydd yng Nghymru. Yma, bydd gennym gynllun a ddiffinnir yn genedlaethol sy'n osgoi loteri cod post ac yn darparu lefel gyson o gymorth ledled Cymru. Ein nod yw sicrhau cydraddoldeb a thegwch i bob hawliwr.[5]

Ar 13 Mehefin 2012, clywodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol dystiolaeth gan y Gweinidog ar *Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol* mewn perthynas â'r *Bil Cyllid Llywodraeth Leol.*[6] Roedd y Memorandwm yn amlinellu pa welliannau'r oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdanynt yn y *Bil Cyllid Llywodraeth Leol* er mwyn gallu creu rheoliadau i gyflwyno cynlluniau i ostwng y dreth gyngor yng Nghymru.

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, soniodd y Gweinidog am ei bryderon y byddai'r gostyngiad mewn cyllid mewn gwirionedd yn fwy na'r 10 y cant a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn 2010:

> It would be fair to say—and I think that I made reference to this in the statement—that we have been publicly informed that there will be a 10% reduction in funding across the piece on the delivery of the core element of this system. However, the figures that have been distributed to us show around a 13% to 14% reduction, as opposed to 10%.[7]

---

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, **Cofnod y Trafodion [tt76-78],** 22 Mai 2012 [fel ar 13 Rhagfyr 2012]

[6] ***Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Cyllid Llywodraeth Leol***, Mehefin 2012 [fel ar 11 Rhagfyr 2012]

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, **Cofnod y Trafodion [paragraff 306]**, 13 Mehefin 2012 (Saesneg yn unig) [fel ar 11 Rhagfyr 2012]

Yn ei adroddiad[8], mynegodd y Pwyllgor nifer o bryderon, gan gynnwys y diffyg manylion a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – er i'r Gweinidog fynnu iddo gydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd y gallai'r cynigion fod wedi cael eu cynnwys mewn Bil yn y Cynulliad, gan y byddai hynny wedi rhoi mwy o gyfle i graffu arnynt yn fanylach. Dywedodd y Gweinidog:

> We looked at the provisions available within the [Local Government Finance] Bill, and, alternatively, whether we should take through an Assembly Bill. I do not believe that the Assembly's legislative time frame gave us the opportunity to pursue the latter option and, therefore, this is the appropriate vehicle, as we see it.[9]

Er gwaethaf pryderon y Pwyllgor, penderfynodd yr Aelodau gefnogi'r cynigion yn y Memorandwm.

Cafodd pryderon y Pwyllgor eu hailgodi yn ystod y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin 2012. Serch hynny, cymeradwyo'r cynnig a wnaeth y Cynulliad hefyd.[10]

### *1.4. Rheoliadau posibl i Gymru*

Rhwng 21 Medi 2012 a 19 Hydref 2012, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad technegol ar *Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru),* a oedd yn cynnwys copi o reoliadau drafft.[11] Ar ôl yr ymgynghoriad, cyflwynodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad ar 27 Tachwedd 2012, gan ddweud mai ei fwriad gwreiddiol oedd y byddai'r rheoliadau yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2012. Yn y datganiad, dywedodd fod Llywodraeth Cymru ar y pryd yn dal i ddisgwyl am gadarnhad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch faint o grant a fyddai ar gael ar gyfer rhoi cymorth at filiau'r dreth gyngor yng Nghymru:

> Mae fy nghyd Weinidogion a minnau wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth y DU i gadarnhau'r trosglwyddiad cyllid ers sawl mis. Yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd y Trysorlys na fyddai'r ffigur yn cael ei ddarparu hyd nes y cyflwynir Datganiad yr Hydref ar 5 Rhagfyr. Mae hynny'n golygu na fydd yn bosibl gosod y rheoliadau cyn y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, rydym wedi gofyn bod trefniadau'n cael eu gwneud i ystyried y rheoliadau mewn cyfarfod llawn cyn gynted â phosibl wedi i'r rheoliadau gael eu gosod.[12]

---

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ***Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol*** , Mehefin 2012 [fel ar 11 Rhagfyr 2012]

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ***Cofnod y Trafodion [paragraff 239]*** (Saesneg yn unig), 13 Mehefin 2012 [fel ar 11 Rhagfyr 2012]

[10] ***Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Cyllid Llywodraeth Leol***, Mehefin 2012 [fel ar 11 Rhagfyr 2012]

[11] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad Technegol ar Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012***, 21 Medi 2012 [fel ar 14 Rhagfyr 2012]

[12] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau), ***Cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor yng Nghymru***, Datganiad Ysgrifenedig, 27 Tachwedd 2012 [fel ar 12 Rhagfyr 2012]

### *1.5. Y Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr 2012*

Ar ôl Datganiad yr Hydref gan y Canghellor ar 5 Rhagfyr 2012, yn hwyrach y diwrnod hwnnw gosododd Llywodraeth Cymru ddwy set o reoliadau gerbron y Cynulliad a oedd yn ymwneud â chynlluniau i ostwng y dreth gyngor.

Mae Rheol Sefydlog 12.20(i) yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion gael eu cyflwyno bum niwrnod gwaith cyn y cynhelir dadl yn eu cylch yn y Cyfarfod Llawn. At hynny, mae Rheol Sefydlog 27.7 yn datgan nad oes modd i gynnig sy'n cymeradwyo offeryn statudol gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn tan y bydd y pwyllgor perthnasol wedi cyflwyno adroddiad arno neu tan y bydd 20 niwrnod wedi mynd heibio ers gosod yr offeryn dan sylw. Cyflwynodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau gynnig y dylid atal y Rheolau Sefydlog dros dro fel y gellid cynnal dadl ar y ddwy set o reoliadau a phleidleisio arnynt y prynhawn hwnnw. Mynegwyd pryderon yn y Cyfarfod Llawn nad oedd digon o amser wedi'i roi i graffu ar reoliadau swmpus a oedd yn dechnegol iawn eu natur. Ni chafwyd mwyafrif o ddau draean o blaid y cynnig i atal y Rheolau Sefydlog, a chan hynny nid oedd yn llwyddiannus.

### *1.6. Ailgynnull y Cynulliad*

Ar 7 Rhagfyr 2012, ar gais y Prif Weinidog, cyhoeddodd y Llywydd y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ailgynnull er mwyn cynnal dadl ar y rheoliadau ar 19 Rhagfyr 2012.

Ar 12 Rhagfyr 2012, gosodwyd y ddwy set o reoliadau gerbron y Cynulliad drachefn. Mae'r rheoliadau gwreiddiol bellach wedi'u diwygio i gynnwys 'cymal machlud' sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau newydd erbyn 1 Ionawr 2014 ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15 a'r blynyddoedd ar ôl hynny. Nid yw'r rheoliadau diofyn wedi newid ers y rheini a osodwyd ar 5 Rhagfyr 2012.[13]

## 2. Y trefniadau ar hyn o bryd

Er bod y dreth gyngor yn faes sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru a Lloegr, mae budd-dal y dreth gyngor, fel y materion eraill sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol, wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gweinyddu budd-dal y dreth gyngor, ond Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n pennu'r rheolau ar gyfer penderfynu pwy sy'n gymwys i'w dderbyn ac i gyfrifo faint o arian y mae gan bobl hawl iddo. Mae pobl sy'n cael budd-daliadau penodol (cymhorthdal incwm, lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm, neu warant credyd pensiwn) ar hyn o bryd yn cael budd-dal llawn at y dreth gyngor (er y gellir tynnu rhywfaint oddi ar y budd-dal os oes pobl nad ydynt yn ddibynnol arnynt yn byw gyda hwy). Gall y budd-dal hwn fod hyd at 100 y cant o fil y dreth gyngor. 'Pasportio' yw'r enw ar hyn. Mae'n bosibl y gall pobl eraill, fel pobl sy'n gweithio ond ar incwm isel, gael cymorth at filiau'r dreth gyngor hefyd, ond bydd maint y

---

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Is-ddeddfwriaeth sy'n agored i gael ei chymeradwyo*** [fel ar 14 Rhagfyr 2012]

budd-dal o bosibl yn llai gan ddibynnu ar eu hincwm, eu cynilion a'u hamgylchiadau personol.

Ym mis Awst 2012, roedd 330,000 o bobl yn cael budd-dal y dreth gyngor yng Nghymru, gyda 230,000 ohonynt yn cael eu 'pasportio' i dderbyn y budd-dal llawn.[14]

## 3. Y cynigion ar gyfer Cymru

### *3.1. Y Rheoliadau i Gymru*

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod dwy set o reoliadau:

- *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012* (rheoliadau'r gofynion rhagnodedig); a
- *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012* (rheoliadau'r cynllun diofyn).

Mae'r rheoliadau wedi'u seilio'n fras ar y system bresennol ar gyfer rhoi budd-dal y dreth gyngor ac oherwydd hynny maent yn dilyn patrwm *Rheoliadau Budd-dal y Dreth Gyngor 2006* a *Rheoliadau Budd-dal y Dreth Gyngor (Personau sydd wedi cyrraedd yr oed cymhwyso ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth) 2006*. Bydd y cymorth a roddir tuag at filiau'r dreth gyngor o hyn allan yn dod ar ffurf gostyngiad ar y bil.

Mae rheoliadau'r gofynion rhagnodedig yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu cynlluniau yn eu hardaloedd eu hunain ar gyfer gostwng y dreth gyngor. Mae'r rheoliadau yn pennu cyfres o feini prawf y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynlluniau o'r fath. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y ddwy set o reoliadau yn datgan y bydd prawf modd yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer penderfynu pwy sy'n gymwys i gael gostyngiad a faint o ostyngiad a roddir o dan y cynllun, gan ddefnyddio'r un rheolau a'r meini prawf a ddefnyddir yn rheoliadau budd-dal y dreth gyngor. Fodd bynnag, ni fydd modd i neb gael mwy na 90 y cant o ostyngiad ar fil y dreth gyngor. Mae'r Memoranda Esboniadol yn datgan mai'r rheswm uniongyrchol am hyn yw'r gostyngiad yn yr arian sydd ar gael i roi cymorth at y dreth gyngor gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.[15] Mae gan awdurdodau lleol rywfaint o ryddid i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol mewn pedair ffordd:

- Ymestyn cyfnod y gostyngiad ar gyfer pobl sy'n dechrau gweithio – gall awdurdodau lleol ymestyn hwn y tu hwnt i'r cyfnod arferol o 4 wythnos;
- Gall awdurdodau lleol ddiystyru mwy na £10 o'r arian statudol wythnosol a roddir trwy'r Budd-dal Anabledd Rhyfel neu'r Pensiwn Gweddw Rhyfel;
- Gellir ôl-ddyddio hawliadau gan hawlwyr o oedran gweithio y tu hwnt i'r cyfnod arferol; a
- Gall awdurdodau lleol roi mwy na'r wybodaeth sy'n ofynnol pan fyddant yn hysbysu pobl o'u penderfyniadau.

---

[14] Gwefan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ***Housing Benefit and Council Tax Benefit Caseload***, Awst 2012 (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Rhagfyr 2012]

[15] *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012*, ***Memorandwm Esboniadol***, pargraff 33 (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Rhagfyr 2012]

Byddai rheoliadau'r cynllun diofyn yn gorfodi awdurdodau lleol i gael cynllun i ostwng y dreth gyngor pe na baent yn mabwysiadu eu cynlluniau eu hunain erbyn 31 Ionawr 2013. Mae'r ddwy set o reoliadau yn debyg iawn i'w gilydd. Fel y dywed Memorandwm Esboniadol rheoliadau'r gofynion rhagnodedig:

> In effect, the prescribed requirements regulations require local authorities to provide for the exact same matters within their schemes as the default scheme regulations would impose upon them should they come into effect in their area. However, the prescribed requirements regulations also permit certain local discretions which are detailed in paragraph 62.The prescribed requirements regulations also set out a number of procedural provisions including the processes an authority must follow when adopting, revising or replacing its scheme.[16]

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n dod law yn llaw â'r Rheoliadau yn datgan y bydd bwlch o £22 miliwn yn y cyllid ar gyfer rhoi cymorth at y dreth gyngor yn 2013-14, ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf o'r gwariant ar fudd-dal y dreth gyngor yn 2012-13. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oes modd iddi roi'r arian i lenwi'r bwlch hwn, felly mae'n rhaid lleihau'r arian sydd ar gael i roi cymorth at filiau'r dreth gyngor.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol dalu costau pontio hefyd wrth i'r cynlluniau newydd gael eu sefydlu.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar setliad terfynol llywodraeth leol ar 11 Rhagfyr 2012, cyfeiriodd y Gweinidog at yr arian a neilltuwyd yn y setliad ar gyfer rhoi cymorth at filiau'r dreth gyngor, gan gynnwys costau sefydlu'r cynlluniau newydd:

> Mae'r cyllid a roddwyd i Gymru, i ddarparu cymorth ar gyfer y dreth gyngor, pan fydd Llywodraeth y DU yn diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2013 wedi'i basportio i mewn i'r setliad terfynol. Felly, mae'r setliad hwn yn cynnwys £222 miliwn i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y dreth gymorth [sic]: mae hwn wedi'i glustnodi ar wahân yn y ffigurau fel cyfrifoldeb newydd. Rydw i hefyd yn rhoi £4.6 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon i helpu awdurdodau lleol gyda'r gost o gyflwyno'r cynllun newydd hwn ac er mwyn helpu i leddfu'r effaith ehangach y bydd y newidiadau lles yn eu cael ar y grwpiau sydd dan yr anfantais fwyaf. Gwneir hynny drwy gynorthwyo mwy o bobl i gael gwybodaeth a chefnogaeth yn lleol.[17]

## *3.2. Yr effaith ar bobl yng Nghymru*

Bydd rheoliadau Llywodraeth Cymru yn golygu y bydd pawb sy'n hawlio budd-dal y dreth gyngor ar hyn o bryd, gan gynnwys y rheini sy'n cael budd-dal llawn, yn gorfod cyfrannu rhywfaint at fil y dreth gyngor. Mae hyn gan mai'r mwyaf y gellir gostwng y bil fydd 90 y cant (yn wahanol i'r sefyllfa bresennol lle gall budd-dal y dreth gyngor dalu 100 y cant o'r bil). Ar sail ffigurau mis Awst 2012, bydd tua 230,000 o bobl felly yn gorfod cyfrannu at fil y dreth gyngor am y tro cyntaf. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y rheini sy'n hawlio'r budd-dal ar hyn o bryd, ar gyfartaledd, yn colli £67 o gymorth yn 2013-14.

---

[16] ibid, paragraff 4 [fel ar 12 Rhagfyr 2012]
[17] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau), Datganiad Ysgrifenedig, ***Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol 2013-14*** , *11 Rhagfyr 2012* [fel ar 13 Rhagfyr 2012]

## 4. Yr Alban

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ym mis Ebrill 2012 ei bod wedi dod i gytundeb gyda Chydffederasiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) i lenwi'r blwch arfaethedig o 10 y cant yn y cyllid ar gyfer cynlluniau i roi cymorth at filiau'r dreth gyngor. Amcangyfrifwyd ar y pryd mai £40 miliwn fyddai cost hynny. Byddai Llywodraeth yr Alban yn cyfrannu £23 miliwn a'r awdurdodau lleol yn cyfrannu £17 miliwn.[18] Nid yw'n glir a fydd y trefniant hwn yn para yn 2014-15 a'r tu hwnt i hynny.

Gosodwyd *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Yr Alban) 2012* ar 9 Tachwedd 2012 a gosodwyd *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Yr Alban) 2012* ar 23 Tachwedd 2012. Bydd y rheoliadau hynny yn dod i rym ar 28 Ionawr 2013. Y weithdrefn negyddol a ddefnyddiwyd sy'n golygu y gall Senedd yr Alban ddirymu'r darpariaethau pe bai'n dymuno. Yn ei adroddiad ar y set gyntaf o reoliadau, dywedodd Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban:

> The Regulations seek to ensure that recipients of council tax benefit will not be disadvantaged by its abolition and will receive the same level of support, provided their circumstances remain the same, by way of a reduction in liability. Therefore, existing entitlement criteria are adopted as much as is possible.
>
> The Regulations make provision for a reduction in liabilities, based on status and means, for persons of working age. A further set of Regulations for persons who have reached the qualifying age for State Pension Credit will be considered by the Committee at a future meeting.
>
> The Regulations are subject to negative parliamentary procedure, and are due to come into force on 28 January 2013. They prescribe council tax reductions from the financial year starting 1 April 2013, and subsequent years.

## 5. Lloegr

Yn Lloegr, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw datblygu eu cynlluniau eu hunain i ostwng y dreth gyngor, er y gallant ddewis cydweithio gydag awdurdodau eraill pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y ddogfen *Localising Support for Council Tax: A Statement of Intent.* Roedd hon yn amlinellu'r polisi y bwriadai'r Llywodraeth ei ddilyn wrth greu rheoliadau ar gyfer cynlluniau i ostwng y dreth gyngor.[19] Cyhoeddwyd rheoliadau drafft ym mis Gorffennaf 2012 ac fe'u diweddarwyd ym mis Medi 2012.

Mae gofyn i awdurdodau lleol yn Lloegr gael cynllun yn barod erbyn 31 Ionawr 2013. Mae Atodlen 1A i *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992* yn creu'r fframwaith y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth lunio'u cynlluniau. At hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi creu rheoliadau, sef *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor*

---

[18] Gwefan Llywodraeth yr Alban, ***Council tax support to be protected***, 19 Ebrill 2012 (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Rhagfyr 2012]
[19] Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, ***Localising support for council tax: a statement of intent***, Mai 2012 (Saesneg yn unig) [fel ar 13 Rhagfyr 2012]

*(Gofynion Rhagnodedig) 2012* sy'n cynnwys darpariaethau gweinyddol mewn perthynas â'r holl gynlluniau, a darpariaethau i sicrhau bod pensiynwyr a chanddynt anghenion ariannol yn cael cymorth.

Pan na fydd awdurdod lleol yn mabwysiadu cynllun, bydd cynllun diofyn yn cael ei roi ar waith o dan ddarpariaethau yn *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Lloegr) 2012*. Mae'r cynllun diofyn wedi'i seilio ar gynllun presennol budd-dal y dreth gyngor. Gosodwyd y ddwy set o reoliadau gerbron y Senedd ar 22 Tachwedd 2012. Daeth rheoliadau'r gofynion rhagnodedig i rym ar 27 Tachwedd 2012, a daw rheoliadau'r cynllun diofyn i rym ar 18 Rhagfyr 2012. Ceir rhagor o fanylion am bwrpas y cynllun diofyn yn ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r ymgynghoriad a gynhaliodd yn 2011:

> Where a billing authority fails to adopt a scheme before 31 January 2013, a default scheme, to be provided for in regulations, will take effect. The Government proposes that this default scheme should retain the criteria and allowances currently in place for council tax benefit, and the default scheme would also set out the other procedures (for example, on the making of claims and appeals) which local schemes must cover.
>
> There will be a strong financial incentive for local authorities to avoid the imposition of a default schemes, as this will limit their ability to adjust awards to manage the funding reduction. [20]

[20] Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, ***Localising Support for Council Tax in England: Government's response to the outcome of consultation***, Rhagfyr 2011, pargraffau 3.17 – 3.18 (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Rhagfyr 2012]